# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Practis Deintyddol y Rhws /

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 9 Tachwedd 2017

Dyddiad cyhoeddi: 12 Chwefror 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu darparu yn ôl y gofyn er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**

ISBN Digidol 978-1-78903-228-4

© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

   Ansawdd profiad y claf ........ 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 12

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 18

4. Beth nesaf? ........ 20

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 21

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ........ 22

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 23

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a’r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Sicrhau bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a’r cyhoedd yn ganolog i’r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: rydym yn gweithredu mewn modd agored a gonest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol yn ein hymagwedd**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy adrodd am arfer da a'i rannu.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn dod o hyd iddo i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol y Rhws yn 5 Heol Ffont-y-gari, y Rhws, y Barri, CF62 3DR, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 9 Tachwedd 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir mwy o fanylion am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod Practis Deintyddol y Rhws yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff sy'n gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn ymroddedig.

Fodd bynnag, daethom ar draws peth tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Ar y cyfan, roedd yr adborth gan y cleifion am y gwasanaeth a ddarperir yn gadarnhaol iawn.
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar, ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd da.
- Roedd digon o gyfleusterau clinigol ac roeddent yn lân.
- Roedd offer deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol.
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen adolygu lleoliad un switsh ynysu ar gyfer yr offer pelydr-X.
- Mae angen gwneud yr adeilad allanol yn fwy diogel.
- Mae'n rhaid cofnodi nodiadau cleifion yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol y Rhws yn darparu gwasanaeth i gleifion yn y Rhws a'r cyffiniau. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, un hylenydd, chwe nyrs ddeintyddol (sydd hefyd yn helpu yn y dderbynfa) a dau reolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion preifat a chleifion y GIG.NHS and private

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod Practis Deintyddol y Rhws yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da a'i fod yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol iawn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 29 o holiaduron wedi'u cwblhau; derbyniwyd y mwyafrif o holiaduron gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers amser hir (y rhai a oedd wedi bod yn gleifion yno ers dros ddwy flynedd). Ar y cyfan, roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn. Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd rhai o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> "*Dwi ddim yn credu bod angen unrhyw welliant.Dwi'n hynod o fodlon ar bob agwedd ar y gofal."*
>
> *"Dwi bob amser wedi bod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth; dwi ddim yn siŵr a fyddai'n gallu gwella.Mae'r staff bob amser yn ddymunol ac yn barod eu cymwynas, ac yn trafod y driniaeth sydd ei hangen arnaf ymlaen llaw."*
>
> *"Dwi'n teimlo bod y practis eisoes yn darparu gwasanaeth ardderchog.Gwnaethom symud i'r ardal ychydig flynyddoedd yn ôl a chredwn fod y driniaeth yn eithriadol o'i chymharu â'n practis diwethaf.Caiff y driniaeth ei hesbonio'n llawn bob amser a'i chyflawni i safon uchel.Mae'r staff wastad yn gyfeillgar ac yn gwrtais ac yn barod eu cymwynas. Rwyf wedi argymell y practis i lawer o'r teulu a ffrindiau a byddaf yn parhau i wneud hynny."*

## Cadw’n iach

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Roedd gwybodaeth hybu iechyd benodedig ar gael i gleifion yn yr ardaloedd aros.

## Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis. Dywedodd un claf:

> *“Mae pob cyswllt dros y ffôn ac wyneb yn wyneb bob amser yn gwrtais ac yn broffesiynol. Ar y cyfan, bob amser yn brofiad da."*

Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle roedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) yn cael eu cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd bron pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch ei driniaeth i’r graddau yr oedd yn dymuno, a'i fod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddo. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddynt bob amser cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth. Dywedodd nifer fach o'r cleifion nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo. Fodd bynnag, gwelsom fod gwybodaeth ynghylch cost triniaeth y GIG a rhestr brisiau ar gyfer cleifion preifat ar gael yn y man aros, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o'r costau.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd ychydig o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn ystyried eu hunain fel siaradwyr Cymraeg; dywedodd yr holl gleifion hyn eu bod bob amser yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol. Dywedodd yr holl gleifion nad oeddent yn siarad Cymraeg a gwblhaodd holiadur eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

## Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai problem ddeintyddol frys ganddynt. Gwelsom fod manylion rhifau cyswllt mewn argyfwng yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad ac ar wefan y practis.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaeth yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn cael gwybod am sut i ofalu am eu dannedd/deintgig a'u hannog i wneud hynny ar ôl apwyntiadau a rhyngddynt.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Mae mynediad gwastad at y ddwy ystafell driniaeth ar y llawr daear, sy'n hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd / cleifion sy'n defnyddio cadair olwyn. Nid yw'n bosibl i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn gael mynediad i'r toiledau. Hysbysir y cleifion o hyn a gellir eu cyfeirio at bractis arall os bydd angen y cyfleuster hwn arnynt.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) ynghylch triniaeth ddeintyddol y GIG, a oedd yn cael ei harddangos ar y wal yn yr ystafell aros. Roedd hyn yn cydymffurfio â'r trefniadau ynghylch nodi pryderon am driniaeth y GIG (a elwir yn 'Gweithio i Wella').[1] Roedd

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=932&pid=50738

gweithdrefn gwynion ar gyfer gofal deintyddol preifat hefyd ar gael fel sy'n ofynnol yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008.[2] Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth hon yn hawdd pe bai ei hangen arnynt. Mae gwybodaeth ar gael yn hawdd ar wefan y practis hefyd.

Dim ond un gwyn a gafwyd yn ystod y 12 mis diwethaf ac ymatebwyd i hon yn unol â phrosesau ymdrin â chwynion y practis. Roedd ffeil gwynion ar gael, a oedd yn cynnwys fformat cwynion da. Roedd unigolyn dynodedig yn ymdrin â chwynion. Roedd gan y practis gofnod pryderon i gofnodi pryderon anffurfiol yn ganolog, er mwyn nodi unrhyw themâu cyffredin.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y practis wedi ceisio canfod eu barn am y practis deintyddol, trwy holiaduron cleifion er enghraifft.

[2] https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd roedd angen eu gwella.

Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn ymddangos yn lân a thaclus. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Mae angen i'r practis edrych ar ddiogelwch yr adeilad allanol lle cedwir rhai cofnodion wedi'u harchifo.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw. Fodd bynnag, mae angen adolygu lleoliad un switsh ynysu ar gyfer offer pelydr-X. Gwnaethom hefyd nodi bod angen gwneud rhywfaint o welliannau i agweddau ar broses cadw cofnodion y deintyddion er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r safonau clinigol ar gyfer cadw cofnodion.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Roedd tystysgrif weirio trydanol gyfnodol bob pum mlynedd ar gael ar gyfer yr adeilad hefyd.

Roedd toiled claf a thoiled ar wahân i staff ar gael. Roedd arwyddion clir at y cyfleusterau hyn ac roeddent i'w gweld yn lân ac roedd biniau gwastraff glanweithiol ar gael. Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis mewn dull diogel. Roedd cynwysyddion miniog yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd asesiadau risg ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a thaflenni data diogelwch yn cael eu cadw ar gyfer sylweddau yn ogystal ag asesiadau risg er mwyn cynorthwyo staff i'w defnyddio'n ddiogel. Roedd sylweddau COSHH a gwastraff peryglus yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd diffoddwyr tân ar gael ac roeddent wedi'u gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Roedd contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer offer diogelwch tân, ac roedd arwyddion tân ac asesiadau risg yn amlwg. Roedd polisi iechyd a diogelwch wedi ei fabwysiadu.

### Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom edrych ar bob ystafell driniaeth yn y practis, a nodi eu bod yn lân ac yn daclus. Roedd y lloriau a'r arwynebau yn yr ystafell driniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd pob un o'r cleifion a lenwodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol, yn ei farn ef, yn lân iawn.

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol. Mae hyn oherwydd inni weld tystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Roedd gan y practis ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol (ystafell ddadheintio) a oedd yn bodloni'r egwyddorion a nodwyd yn nogfen polisi a chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1)[3]

- Cyfarpar diogelu personol megis menig a ffedogau untro a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael ei ddefnyddio

- Sinc benodedig i olchi dwylo

---

[3] Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynglŷn â dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio i lanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg
- Roedd offer deintyddol yn cael eu storio a'u cludo mewn modd priodol, ac roedd dyddiad ar y pecynnau i ddangos erbyn pryd roedd yn rhaid eu defnyddio

Roedd polisi dadheintio ar waith. Canfuom fod manylion ar gael ar gyfer gwirio brechiadau imiwneiddio'r holl aelodau o staff. Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd tystiolaeth fod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar weithdrefnau dadheintio. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion ac roedd y rhain yn cael eu harddangos mewn ardaloedd perthnasol. Roedd yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn cwympo) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau brys i sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio. Roedd polisi dadebru ar waith a oedd yn cynnwys lleoliad y cyfarpar a rolau a chyfrifoldebau. Roedd swyddog cymorth cyntaf penodedig ar gael yn y practis a oedd wedi cael hyfforddiant.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed a allai fod mewn perygl. Y rheswm am hwn yw bod polisïau amddiffyn priodol ar waith a bod hyfforddiant diogelu'n cael ei ddarparu i staff perthnasol.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom sylwi bod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i helpu'r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da. Gwelsom yn gyffredinol fod yr amgylcheddau wedi cael eu

cynllunio a'u trefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

Roedd ffeil ymbelydredd ar gael yn y practis a oedd yn cynnwys gwybodaeth allweddol mewn un man. Fodd bynnag, gwnaethom drafod bod angen symud un swits ynysu ar gyfer offer pelydr-X i'w wneud yn fwy diogel. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod staff a oedd yn cymryd rhan yn y gwaith o dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.[4] Roedd staff nyrsio deintyddol wedi cyflawni hyfforddiant ymwybyddiaeth o radioleg.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis gynnal adolygiad o leoliad y switsh ynysu yn un o'r ystafelloedd triniaeth i lawr y grisiau er mwyn sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu hamddiffyn rhag datguddiad damweiniol neu anfwriadol i belydrau-X.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom fod y practis yn cynnal archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau ac offer radiograffeg.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedodd y deintydd fod prosesau adolygu ansawdd mewnol ar waith. Roedd y practis wedi cynnal hunanasesiad arfer gorau Cymdeithas Ddeintyddol Prydain ac roedd yn defnyddio offeryn gwerthuso'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth.[5] Cafwyd tystiolaeth ar ffeil hyfforddiant y deintyddion o

[4] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

[5] Mae'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth yn offeryn datblygu ymarfer ar gyfer y tîm deintyddol cyfan sy'n helpu timau deintyddol i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

bresenoldeb mewn cynadleddau ac amrywiaeth eang o dystysgrifau datblygiad proffesiynol parhaus.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Fodd bynnag, roedd yr adeilad allanol yn cael ei ddefnyddio i storio rhywfaint o ddeunyddiau archif a rhaid ei wneud yn fwy diogel. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd mynediad at y sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis wneud yr adeilad allanol yn fwy diogel er mwyn sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu storio'n unol â gofynion diogelu data.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion i asesu ansawdd y dull o gadw cofnodion, ac roedd hyn yn dda yn gyffredinol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Rhaid i'r gwaith o ddiweddaru cofnodion mewn perthynas â hanesion meddygol cleifion gael ei gofnodi'n barhaus
- Rhaid i'r gwaith o gofnodi cydsyniad y claf i driniaeth gael ei gyflawni'n fwy cyson
- Rhaid i amlder radiograffau fod yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Rhaid cofnodi cyflwr hylendid geneuol cleifion yn fwy cyson
- Rhaid cofnodi sgrinio ar gyfer canser y geg yn gyson
- Rhaid cofnodi cynlluniau triniaeth cleifion yn fwy manwl

Trafodwyd y canfyddiadau hyn gyda'r deintyddion. Roedd y practis wedi cynnal archwiliad cadw cofnodion yn ddiweddar, a oedd wedi amlygu'r angen i wella rhai o'r meysydd hyn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae’n rhaid i ddeintyddion sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau penodol yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chadw cofnodion ac mae'n rhaid iddynt wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddyn nhw yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Dylai'r deintyddion yn y pratis gwblhau archwiliad cofnodion clinigol arall.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Mae gan Bractis Deintyddol y Rhws dîm practis sefydledig â throsiant isel o staff. Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda iawn a bod staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y practis yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan y prif ddeintydd gyda chefnogaeth dau reolwr practis. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n ymroddedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda iawn a bod staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y practis yn cael ei reoli o ddydd i ddydd gan y prif ddeintydd, gyda chefnogaeth dau reolwr practis. Roedd y practis yn drefnus ac yn cadw cofnodion yn dda.

Cafwyd tystiolaeth o brosesau sicrhau ansawdd effeithiol ac ymgymerwyd ag archwiliadau perthnasol, fel a ddengys yn archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ac archwiliadau radiograffig.

Roedd yr holl staff perthnasol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrifau AGIC y deintyddion wedi'u harddangos yn ôl gofyniad Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd yn bresennol ar gyfer pob deintydd yn ôl gofyniad Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Roedd y staff y gwnaethom siarad â hwy'n ymrwymedig iawn i ddarparu gofal o safon i'w cleifion. Gwelsom dystiolaeth o ddogfennau ymsefydlu staff ac roedd y rhain wedi'u cynllunio'n dda. Roedd yr holl staff wedi cael gweld polisïau a gweithdrefnau. Gwelsom hefyd fod staff wedi cael mynediad i amrywiaeth eang o hyfforddiant, gan fodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwelsom dystiolaeth o gyfathrebu da rhwng y tîm a chyfarfodydd tîm rheolaidd. Roedd polisi a fformat ar waith ar gyfer arfarnu staff yn flynyddol a chynhaliwyd arfarniadau staff. Gwelsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

Edrychom ar y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith a gwelsom fod y rhain yn drefnus iawn ac yn drwyadl a gwelsom dystiolaeth eu bod yn adlewyrchu ymarfer gwirioneddol.

# 4. Beth nesaf?

Rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad sy'n gofyn i'r gwasanaeth gymryd camau gweithredu. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn gymwys):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodir, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r problemau a nodir yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC lle mae angen cymryd camau gweithredu o hyd a/neu maent ar waith, er mwyn cadarnhau pryd yr aethpwyd i'r afael â hwy

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, bydd arolygiadau practisau deintyddol yn arolygiadau lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at ddeuddeg wythnos o rybudd o arolygiad. Gwneir hyn er mwyn gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn cael ei gynnal yn ôl yr arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o aflonyddwch i gleifion â phosib.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir mwy o fanylion am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol y Rhws

## Dyddiad yr arolygiad: 9 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dim materion sicrwydd dybryd | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Practis Deintyddol y Rhws

### Dyddiad yr arolygiad: 9 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle mae angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn dweud wrthym am y camau mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw feysydd yr oedd angen eu gwella. | | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rhaid i'r practis gynnal adolygiad o leoliad y switsh ynysu yn un o'r ystafelloedd triniaeth i lawr y grisiau er mwyn sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu hamddiffyn rhag datguddiad damweiniol neu anfwriadol i belydrau-X. | Safonau Iechyd a Gofal 2.9<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | Mae lleoliad y switsh ynysu ar gyfer yr uned pelydr-X yn Ystafell Driniaeth 3 wedi cael ei adolygu.<br><br>Bwriedir gosod prif switsh ynysu yn yr ystafell driniaeth na all y cyhoedd gael mynediad ato. | Aled James | 5 Chwefror 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 14 (1) (b)<br>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 | | | |
| Rhaid i'r practis wneud yr adeilad allanol yn fwy diogel er mwyn sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu storio'n unol â gofynion diogelu data. | Safonau Iechyd a Gofal 3.5<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>Deddf Diogelu Data 1998 | Bwriedir gosod uned gwydriad dwbl gyda gwydr barugog yn lle'r ffenestr yn yr adeilad allanol, neu, fel arall, gorchuddio'r ffenestr a'i diogelu.<br>Rydym wedi trefnu apwyntiad gyda chontractwr lleol ym mis Ionawr 2018 i drafod y mater, a chaiff y gwaith ei gyflawni o fewn tri mis. | Aled James | 5 Ebrill 2018 |
| Mae’n rhaid i ddeintyddion sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau penodol yn yr adroddiad sy'n ymwneud â chadw cofnodion ac mae'n rhaid iddynt wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a | Safonau Iechyd a Gofal 3.5<br>Rheoliadau | Mae'r holl ddeintyddion yn y practis wedi trafod cadw cofnodion ac mae'r diffygion wedi'u nodi.<br>Mae pob deintydd wedi cydnabod | Sarah James | 5 Ebrill 2018 a monitro parhaus |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| gwblheir ganddyn nhw yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. Dylai'r deintyddion yn y practis gwblhau archwiliad cofnodion clinigol arall. | Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) | meysydd penodol y mae angen eu gwella a bwriadwn ailadrodd ein harchwiliad cadw cofnodion bob tri mis. | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â’r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): Aled James**

**Swydd: Prif ddeintydd**

**Dyddiad: 5 Ionawr 2018**